

Treftadleoedd: adroddiad gwerthuso blwyddyn 1

29/05/2025

[See all updates](#)

Archwiliwch y cynnydd rydym wedi'i wneud a'r hyn rydym wedi'i ddysgu yn ystod blwyddyn gyntaf ein menter strategol.

Atodiad

Maint

[Heritage Places Year 1 Interim Report.pdf](#) 2.65 MB

Rydym wedi ymrwymo £200miliwn dros 10 mlynedd i roi hwb i falchder mewn lle, adfywio economïau lleol a chysylltu pobl â'u treftadaeth mewn trefi a dinasoedd ar draws y DU.

Ym mis Hydref 2023, gwnaethom gyhoeddi'r [11 cyntaf o 20 lle yr ydym wedi cynllunio](#) i ganolbwyntio ein hariannu arnynt. Mae gan bob lle anghenion, cyfleoedd a photensial treftadaeth. Hyd yma, rydym wedi buddsoddi bron i £3.8m, o Gastell-nedd Port Talbot i Ogledd-ddwyrain Swydd Lincoln.

Yn ddiweddar, comisiynwyd ERS Research and Consultancy i werthuso blwyddyn gyntaf ein menter strategol Mannau Treftadaeth. Fe wnaethant gyfweld a chynnal gweithdai gyda grantïon a siarad â staff i gynhyrchu'r adroddiad gwerthuso dros dro hwn.

Canfyddiadau allweddol

Nododd yr adroddiad y canlynol:

- Mae'r sail resymegol strategol dros Treftadleoedd yn parhau'n gryf, gyda chynnydd yn cyd-fynd yn dda ag arfer gorau mewn gweithio sy'n seiliedig ar le. Mae'r ymrwymiad 10 mlynedd i fuddsoddi hirdymor yn nodwedd amlwg.
- Mae cyd-destun lleol yn bwysig. Mae amrywiadau o ran capasiti, strategaethau presennol, perthnasoedd â'r Gronfa Treftadaeth a graddfa ddaearyddol wedi arwain at wahanol gyflymderau a dulliau ar draws yr 9 lle.
- Mae ein hyblygrwydd a'n hymagwedd hagored at wahanol fodelau arweinyddiaeth wedi cael eu croesawu. Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn bod y prosesau ymgeisio'n rhy anystwyth, gan greu heriau yn ystod y gwaith datblygu.
- Bu cefnogaeth gan ein timau ymgysylltu'n hanfodol i feithrin perchnogaeth leol ac fe'i gwerthfawrogydd yn fawr. Ond mae rhai Treftadleoedd wedi nodi bod angen ffiniau cliriach a hwyluso sy'n fwy cyson.
- Mae angen eglurder ynghylch graddfeydd amser, yn enwedig a all prosiectau Treftadleoedd gyrraedd eu nodau ar ôl 2033, pan ddaw'r fenter strategol i ben.

Argymhellion

Mae ERS Research and Consultancy yn awgrymu i ni:

- Gynnal yr ymrwymiad hirdymor o dan Treftadaeth 2033 ac ymwreiddio dysgu mewn mentrau sy'n seiliedig ar leoedd yn y dyfodol.
- Parhau i fuddsoddi mewn datblygu cynhwysol a chydweithredol, gan ennyn diddordeb ystod eang o bartneriaid a chymunedau lleol.
- Monitro cynnydd a modelau cyflwyno prosiect o'r 9 lle cyntaf i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n gweledigaeth tra'n caniatáu hyblygrwydd lleol.
- Cryfhau ystyried seilwaith treftadaeth leol wrth benderfynu ar y swp nesaf o leoedd, gan gynnwys y gallu i gydweithio a mecanweithiau cynnull.
- Adolygu a mireinio'r broses gwneud grantiau i sicrhau ei bod yn cefnogi gwaith sy'n seiliedig ar le yn fwy effeithiol yn ystod y camau datblygu.
- Ystyried ailbroffilio dyraniadau ariannu dros oes y fenter i ystyried galw sy'n is na'r disgwyl yn y cam cynnar.

Y camau nesaf

Mae'r mewnwelediadau a'r argymhellion hyn yn darparu sylfaen gref ar gyfer myfyrio a gwella wrth i ni weithio ar gefnogi'r un ar ddeg Lle Treftadaeth cyntaf. Byddant hefyd yn llywio sut rydym yn adeiladu perthnasoedd â'r lleoliadau nesaf i gael eu hariannu.

Mwy o wybodaeth

Gallwch ddarllen yr adroddiad gwerthuso llawn ar flwyddyn 1 Treftadleoedd yn y PDF sydd ynghlwm wrth y dudalen hon.


Mae Treftadleoedd yn un o fentrau strategol allweddol ein strategaeth Treftadaeth 2033 ac yn cyfrannu at ein gweledigaeth i [werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol](#).

Ein gwaith ymchwil a gwerthuso

Rydym yn cynnal ymchwil yn rheolaidd i ddarganfod beth sy'n digwydd yn y sector treftadaeth, ac yn gwerthuso ein gwaith i ddeall yn well y newid yr ydym yn ei wneud. [Darllen mwy o'n mewnwelediad](#).

Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...

[Treftadleoedd](#)



[Bydd ariannu gwerth £200 miliwn ar aifer Lleoedd Treftadaeth yn rhoi hwb i](#)



[Gofynion cydnabyddiaeth grant Treftadleoedd](#)